

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**  
**20 EBRILL 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 20 Ebrill 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Bill Crease, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Vicky Perfect, Jason Shallcross, Sam Swash a Linda Thomas

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Rob Davies (ar ran Bernie Attridge)

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Kevin Rush

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau) a Swyddog Gweithredol Strategol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau)

Ar gyfer cofnod rhif 94

Andrea Powell - Sefydliad Cymunedol Cymru

Ar gyfer cofnod rhif 99

Steve W Jones - Rheolwr Gyfarwyddwr Arlwygo a Glanhau NEWydd Cyf  
Rachael Corbelli - Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

**90. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**91. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Bill Crease a Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**92. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Allan Marshall a Bill Crease.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

### **93. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y rhaglen gwaith i'r dyfodol gyfredol i'w hystyried a nodi'r newidiadau canlynol:

- Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 - yn cael ei symud o fis Mai i fis Gorffennaf
- Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 Mis 1 yn cael ei symud o fis Mehefin i ganiatáu ar gyfer Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw Dros Dro 2023/24 ym mis Gorffennaf.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bill Crease a Linda Thomas.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a
- (b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

### **94. ADRODDIAD EFFAITH CRONFEYDD SIR Y FFLINT 2022**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Effaith Cronfeydd Sir y Fflint ar gyfer 2022 a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gyda Chronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa'r Degwm Deiran, ac roedd y ddau wedi cael eu gweld gan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Andrea Powell o Sefydliad Cymunedol Cymru a roddodd gyflwyniad byr ar y meysydd canlynol, fel yr atodwyd i'r adroddiad:

- Cyflwyniad
- Y wybodaeth ddiweddaraf yn cynnwys dosbarthu grantiau
- Hanes a Throsolwg o'r Gronfa
- Perfformiad Ariannol
- Astudiaethau Achos

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson, rhoddwyd eglurhad ar aelodaeth y panel grantiau a dosbarthu dyfarniadau. Cadarnhawyd hefyd bod polisiâu buddsoddi moesegol yn addasu yn y tymor hwy i gefnogi newid hinsawdd.

Croesawodd y Cadeirydd y cyflwyniad a'r astudiaethau achos sy'n cyd-fynd, a oedd yn tynnu sylw at y buddion i unigolion a grwpiau.

Adleisiwyd ei sylwadau gan y Cynghorydd Paul Johnson a gyfeiriodd at waith 'Emerge Community Arts', un o'r grwpiau a oedd wedi elwa o grant.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bill Crease a Rob Davies.

### **PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried cynnwys Adroddiad Effaith Cronfeydd Sir y Fflint 2022, bod y Pwyllgor yn cefnogi gwaith Sefydliad Cymunedol Cymru.

### **95. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar flaenoriaethau, is-flaenoriaethau ac amcanion lles wedi'u hadnewyddu yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, a oedd yn adlewyrchu golwg hirdymor ar adferiad, prosiectau ac uchelgeisiau dros y cyfnod. Roedd Rhan 2 o Gynllun y Cyngor yn cael ei ystyried gan bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i sicrhau darpariaeth lawn o Ran 1 a'i fesurau a thargedau priodol, cyn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir.

O dan Amgylcheddau Dysgu, tynnodd y Cynghorydd Bill Crease sylw at ddatblygu strategaeth moderneiddio ysgolion o fewn ardal Saltney erbyn mis Mawrth 2024. Cyfeiriodd at gynlluniau gwaith blaenorol yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant nad oedd wedi'u datblygu oherwydd materion ynglŷn â'r safle a nododd yr angen brys i ddatblygu cynigion pellach i wella'r amodau yn yr ysgol.

Nododd y Prif Weithredwr bwynt penodol o ran cyflwr y to gan atgoffa'r Pwyllgor bod gan yr ysgol y dewis i ddefnyddio ei gyllidebau dirprwyedig i wneud gwaith atgyweirio cyn i fân atgyweiriadau fynd yn rhai sylweddol sydd angen ymyrraeth gan yr AALI. Ar y mater penodol ynglŷn â'r strategaeth moderneiddio ysgolion, ac yn fwy penodol Ysgol Uwchradd Dewi Sant Saltney, cytunodd y Prif Weithredwr i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant.

O dan Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd, gofynnodd y Cynghorydd Sam Swash pam nad oedd cyfeiriad at y ddeddfwriaeth sydd ar fin dod i rym ar gynghorau yn sefydlu eu cwmnïau bysiau trefol eu hunain wedi'i gynnwys yn y camau gweithredu ar gyfer yr is-flaenoriaeth Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw wybodaeth bellach ar y newidiadau wedi dod i law eto gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd y gellir cynnwys rhywfaint o gyfeiriadau ac y byddai'n cyfeirio'n ôl at y Prif Swyddog.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Cadeirydd i'w cyfeirio at y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol a'r Cabinet:

- Adolygu'r rhesymeg dros symud yr is-flaenoriaethau ar Eiddo Gwag, Ynni Adnewyddadwy a Gwario Arian er Budd Sir y Fflint.
- Tlodi Incwm - ystyried amserlenni'r camau gweithredu, yn enwedig pwynt bwled rhif 7 ar wneud y mwyaf o'r hawl i fudd-dal.
- Tlodi Plant - egluro sut y gellir rheoli a mesur canlyniadau lle defnyddir cyllid grant allanol.

- Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd - os ellir ystyried bod y geiriad diwygiedig i sicrhau bod digartrefedd “yn brin, byr ac anghylchol” yn gostwng y targed hwnnw.
- Cyngor Di-garbon Net - ystyried a ddylid defnyddio'r geiriad ar gyfer camau gweithredu sy'n “ganolog i adferiad Covid-19” ar gyfer y Cynllun pum mlynedd hwn.
- Addasu Newid Hinsawdd - ymholiad ynglŷn â sut y gellir rheoli a mesur Rheoli Perygl Llifogydd os byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei roi i ddarparwr allanol a hefyd dim sôn am brosiectau ynni adnewyddadwy.
- Cysylltedd Trafnidiaeth - anghytuno gyda'r ail bwynt bwled ar gefnogi'r gwaith o sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Byw'n Annibynnol - eglurder o ran sut y gellir mesur bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Diogelu - cwestiynu'r cyfnod hir i baratoi at weithredu'r gweithdrefnau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd.
- Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol - ystyried dyddiad targed cynt i ddatblygu dewisiadau i gefnogi'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n cael trafferth ymgysylltu ag addysg oherwydd problemau iechyd meddwl.
- Pobl - egluro a yw gweithredu model cyflog newydd sy'n cydymffurfio ac yn gynaliadwy erbyn mis Hydref 2023 yn golygu nad yw'r model presennol yn cydymffurfio.

#### Rhan 2 o Gynllun y Cyngor:

- Tlodi - Tlodi Incwm a Thlodi Tanwydd - nid yw rhai o'r targedau ar gyfer 2023/24 yn dangos gwelliant o'r data sylfaenol ar gyfer 2021/22.
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch - Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd a Thai Cymdeithasol - ni ddangosir unrhyw welliannau yn y targedau ar gyfer 2023/24.
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd - Lliniaru Ffosffadau - egluro sut gallai'r Cyngor ddylanwadu ar ganlyniadau uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff yr Wyddgrug a Bwcle o ystyried rhan sefydliad allanol.
- Economi - Is-flaenoriaeth Busnes - lleihad sylweddol mewn targedau.
- Lles Personol a Chymunedol - Byw'n Annibynnol a Diogelu - nid yw rhai o'r targedau ar gyfer 2023/24 yn dangos gwelliant o'r data sylfaenol ar gyfer 2021/22.
- Addysg a Sgiliau - Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol ac Amgylcheddau Dysgu - nid yw'r targedau yn dangos gwelliant.
- Addysg a Sgiliau - Cyfleoedd Dysgu Digidol - ni osodwyd targedau ar gyfer rhai mesurau cyflawniad.
- Addysg a Sgiliau - Darpariaeth Addysg Arbenigol - ni nodwyd unrhyw fesurau cyflawniad.
- Cyngor sydd wedi'i Reoli'n Dda - Pobl - targed is ar gyfer prentisiaethau gyda chanlyniadau cadarnhaol.
- Cyngor sydd wedi'i Reoli'n Dda - Digidol - dylai'r targed ar gyfer y canran o alwadau a atebwyd i'r Ganolfan Gyswllt gorfforaethol gyd-fynd â'r geiriad yn y mesur cyflawniad.

Ar yr is-flaenoriaeth ar gyfer targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), cyfeiriodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson at y risg cysylltiedig ar gynnydd araf gyda'r Cynllun Datblygu Strategol yn methu â gosod y cyd-destun ar gyfer CDLI

2. Cwestiynodd pam nad oedd y gwaith ar ddatblygu'r ail CDLI wedi'i adlewyrchu yng Nghynllun y Cyngor hwn, yn enwedig o ystyried y gwaith sylweddol sydd ynghlwm ag ef.

Nododd y Prif Weithredwr mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y CDLI ei fabwysiadu gan y Cyngor ac y byddai angen i gynnydd gyda CDLI 2 ystyried y cysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Strategol. Cytunodd i gyfeirio'r mater penodol hwn o fewn y cynllun i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Economi a'r Amgylchedd) i'w ystyried.

Oherwydd y nifer o sylwadau a wnaed, cynigodd y Cadeirydd ddiwygiad i'r argymhelliad ac fe'i heiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Crease.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau, yn derbyn ac yn nodi dogfennau Rhan 1 a Rhan 2 o Gynllun y Cyngor 2023-28 sy'n amlinellu'r camau gweithredu, mesurau a risgiau sy'n tanategu Blaenoriaethau, Is-flaenoriaethau ac amcanion Lles Cynllun y Cyngor 2023-28; a
- (b) Bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol a'r Cabinet i'w hystyried.

### **96. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23 MIS 11**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol sefyllfa monitro cyllideb refeniw 2022/23 ym mis 11 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu fod yna £2.106miliwn dros ben (ac eithrio effaith y dyfarniad cyflog a fyddai'n dod o'r cronfeydd wrth gefn). Byddai hyn yn gadael balans cronfa wrth gefn at raid o £8.364miliwn ar ddiwedd y flwyddyn sy'n cynnwys cost ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £3.955miliwn ar gyfer dyfarniadau cyflog 2022/23 hyd yma a £2.4miliwn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a drosglwyddwyd o ddyraniad cynnal refeniw ychwanegol 2021/22, a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2022. Roedd y symudiadau sylweddol o fis 10 yn bennaf o ganlyniad i newidiadau i gyllid grant ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r dyraniad o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a gafodd effaith gadarnhaol ar y sefyllfa gyda Lleoliadau y tu Allan i'r Sir. Roedd y symudiad cadarnhaol mewn Cyllid Canolog a Chorfforaethol oherwydd incwm annisgwyl unwaith yn unig o arbedion Ardrethi Annomestig a lleihad pellach mewn costau benthyca byrdymor o Fenthyciadau Canolog a'r Cyfrif Buddsoddiadau, yn ychwanegol at gynyddu incwm o fuddsoddiad dros dro o ganlyniad i gyfraddau llog banciau yn codi. Roedd nifer o geisiadau i gario cyllid drosodd i 2023/24, a oedd yn dod i gyfanswm o £1.4miliwn ar draws portffolios, fel y nodir yn Atodiad 6.

Roedd crynodeb o risgiau yn ystod y flwyddyn a gafodd eu holrhain yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran lefelau casglu Treth y Cyngor a'r dyfarniadau cyflog, ynghyd â risgiau eraill fel tâl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff, lle arhoswyd am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru.

Roedd diweddariad ar gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn nodi bod y balans presennol ar yr Arian Wrth Gefn Brys Covid-19 yn £3.610miliwn, i'w ddefnyddio i fodloni'r costau sy'n gysylltiedig â Covid a galwadau ehangach.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelir y bydd gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £2.839miliwn yn uwch na'r gyllideb, a fyddai'n gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.635miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau ar wariant a argymhellwyd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Sam Swash a'r Cadeirydd ar y tâl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff, eglurwyd bod gorchymyn wedi'i roi i'r Cyngor a bod trafodaethau yn parhau er mwyn sefydlu'r gosb a roddir. Byddai'r risg yn cael ei asesu fel rhan o ymrwymadau diwedd y flwyddyn yn nhermau dyrannu arian at raid yn y cyfrifon gan ddibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

Fel y gofynnwyd yn flaenorol, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys eglurhad ar y symudiadau (waeth pa mor fach) mewn cyllidebau cymeradwy i ychwanegu eglurder.

Cafodd yr argymhelliad, fel y diwygiwyd i adlewyrchu'r ddadl, ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bill Crease a Rob Davies.

### **PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 (mis 11), bod y Pwyllgor yn dymuno bod y risg o ran y tâl posibl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff yn cael ei godi gyda'r Cabinet.

## **97. DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS YN YR 21AIN GANRIF – TROSOLWG**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i archwilio manteision a chyfyngiadau contractau allanol a/neu greu gwasanaethau a rannir fel modd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, fel y gofynnwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Kelly Oldham-Jones, Swyddog Gweithredol Strategol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau), a roddodd trosolwg o'r prif feysydd yn yr adroddiad. Eglurodd, yn ychwanegol at grynhoi detholiad ehangach o fodolau cyflawni amgen, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at egwyddorion craidd ehangach a gofynion deddfwriaethol y dylid eu hystyried. Wrth osod dull y Cyngor, cyfeiriwyd at y meini prawf allweddol - yn cynnwys canllawiau Llywodraeth Cymru - a'r angen i ddatblygu bob model i fodloni anghenion penodol a gyda'r adnoddau priodol i'w gweithredu, fel y dangoswyd yn yr enghreifftiau a rannir.

Dywedodd y Cadeirydd bod rheoli gwasanaethau'r swyddfa gefn o leoliad canolog i gyflawni arbedion cost yn gweithio'n dda yn y sector preifat, gan gydnabod yr effaith ar staff, ac awgrymodd adroddiad pellach i ystyried dewisiadau ar gyfer y Cyngor ac effeithiau posibl.

Wrth dynnu sylw at yr Uned Caffael ar y Cyd fel gwasanaeth a rennir gyda Chyngor Sir Ddinbych, dywedodd y Prif Weithredwr y dylid cydnabod bod lefel sylweddol o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i drawsnewid gwasanaethau, yn cynnwys diogelu gwasanaethau ar gyfer cymunedau trwy Fodelau Cyflawni Amgen a Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol. Felly, dylai dealltwriaeth o'r manteision i'r Cyngor a'i bartneriaid fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y dewisiadau ar gyfer gwasanaethau a rennir.

Bu i'r Cadeirydd gydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm ac awgrymodd bod y Pwyllgor yn nodi un dewis er mwyn gallu rhannu adroddiad manwl i ystyried y goblygiadau.

Dywedodd y Cyngorydd Paul Johnson ei fod yn bwysig bod unrhyw newid yn gwella'r gwasanaeth hwnnw.

Wrth sôn am y rhestr gynhwysfawr o ddewisiadau a rennir yn yr adroddiad, dywedodd y Cyngorydd Bill Crease y dylai craffu ar gynigion a dadansoddiad cost i ddeall y buddion ddod yn ddiwylliant sy'n cael ei fewnosod ar draws y sefydliad.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai unrhyw ystyriaethau roi sylw dyledus i feini prawf allweddol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hawliau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth.<sup>1</sup> Mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd, rhoddodd sicrwydd i Aelodau bod ystyriaeth yn cael ei roi i hyfywedd modelau priodol.

Cynigodd y Cadeirydd ddiwygiad i'r argymhellion i adlewyrchu'r ddadl. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Allan Marshall.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r modelau gwahanol y gellir eu defnyddio fel modelau amgen i ddarparu gwasanaethau;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y ffactorau ehangach, fel paramedrau deddfwriaethol ac egwyddorion craidd, sydd angen cael eu harsylwi wrth ystyried darparu gwasanaethau trwy fodelau cyflawni amgen;
- (c) Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd bod y Cyngor yn ystyried yr holl fodelau cyflawni amgen priodol, a manteision a chyfyngiadau'r rhain, fel rhan o werthuso dewisiadau ehangach wrth adolygu gwasanaethau; a
- (d) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn y dyfodol ar wasanaethau a rennir yn y dyfodol.

#### **98. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd gan y Cyngorwyr Allan Marshall a Bill Crease.

---

<sup>1</sup>Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**99. CYNLLUN BUSNES NEWYDD 2023/24**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Busnes blynyddol 2023/24 ar gyfer Arlwygo a Glanhau NEWydd Cyf i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

Rhoddodd Steve W Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Arlwygo a Glanhau NEWydd Cyf, grynodedb o elfennau allweddol y Cynllun Busnes ynghyd â phwysau ariannol a nodwyd ar gyfer 2023/24 gyda chamau lliniaru cysylltiedig.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai) eglurhad ar y cyfrifoldebau a'r trefniadau ariannol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bill Crease a Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r risgiau strategol sy'n wynebu'r busnes a'r Cynllun Busnes 2023/24, sy'n cynnwys lliniaru'r risgiau a nodwyd, ac yn canmol y Cynllun Busnes i'r Cabinet.

**100. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12pm)

.....  
**Y Cadeirydd**